OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 Rhif 646 (Cy. 120)

# ANIFEILIAID, CYMRU

## IECHYD ANIFEILIAID

## Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid a Phasbortau Anifeiliaid Anwes (Ffioedd) (Cymru) 2018

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *22 Mai 2018* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *30 Mai 2018* |
| *Yn dod i rym - -* | *30 Mehefin 2018* |

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi(**1**) at ddibenion gwneud Rheoliadau o dan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) ("Deddf 1972") mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth at ddiben a grybwyllir yn adran 2(2) o Ddeddf 1972 ac mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei bod yn hwylus i ddehongli cyfeiriadau at offerynnau'r UE yn y Rheoliadau hyn fel cyfeiriadau at yr offerynnau hynny fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan—

(a) adran 2(2) o Ddeddf 1972(**3**), a pharagraff 1A o Atodlen 2 iddi; a

(b) adran 56(1) a (2) o Ddeddf Cyllid 1973 ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**4**).

Yn unol ag adran 56(1) o Ddeddf Cyllid 1973, mae'r Trysorlys yn cydsynio i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud.

### Enwi, cymhwyso a chychwyn

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid a Phasbortau Anifeiliaid Anwes (Ffioedd) (Cymru) 2018. Maent yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar 30 Mehefin 2018.

### Dehongli

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

(**1**) O.S. 2010/2690.
(**2**) 1972 p. 68. Diwygiwyd adran 2(2) gan adran 27(1)(a) o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51), a chan adran 3(3) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p. 7), a Rhan 1 o'r Atodlen iddi.
(**3**) Mewnosodwyd paragraff 1A o Atodlen 2 gan adran 28 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006.
(**4**) 1973 p. 51. Diwygiwyd is-adran (1) gan erthygl 6(1)(e) o O.S. 2011/1043. Caiff Gweinidogion Cymru arfer y pŵer hwn yn rhinwedd adran 59(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

mae "cymeradwyaeth" a "cymeradwyo" ("*approval*") yn cynnwys cymeradwyaeth amodol o dan Erthygl 44(2) o Reoliad Rheolaeth yr UE;

ystyr "milfeddyg" ("*veterinary surgeon*") yw person sydd wedi ei gofrestru yng nghofrestr y milfeddygon a gedwir o dan Ddeddf Milfeddygon 1966(**5**);

ystyr "Rheoliad Rheolaeth yr UE" ("*EU Control Regulation*") yw Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod rheolau iechyd mewn cysylltiad â sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion deilliedig nad ydynt wedi eu bwriadu ar gyfer eu bwyta gan bobl ac sy'n diddymu Rheoliad (EC) Rhif 1774/2002(**6**);

ystyr "swyddog milfeddygol" ("*veterinary officer*") yw milfeddyg a gyflogir gan Weinidogion Cymru.

### Ad-dalu ffioedd

**3.** Os caiff unrhyw gais y mae ffi yn daladwy ar ei gyfer o dan y Rheoliadau hyn ei dynnu yn ôl cyn y penderfynir ar y cais, rhaid i Weinidogion Cymru ad-dalu i'r ceisydd unrhyw gyfran o unrhyw ffi a dalwyd mewn cysylltiad â'r cais hwnnw y mae Gweinidogion Cymru yn meddwl ei bod yn rhesymol, gan roi sylw i unrhyw gostau rhesymol yr aeth Gweinidogion Cymru iddynt mewn cysylltiad â'r cais.

### Sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion deilliedig

**4.**—(1) Mae'r ffioedd sy'n daladwy i Weinidogion Cymru am geisiadau mewn cysylltiad â gweithgareddau cymeradwyo o dan Erthyglau 24 a 44 o Reoliad Rheolaeth yr UE i'w pennu yn unol â Thabl 1 o'r Atodlen.

(2) Mae'r ffioedd sy'n daladwy i Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â gweithgareddau arolygu o dan Erthygl 45 o Reoliad Rheolaeth yr UE i'w pennu yn unol â Thabl 2 o'r Atodlen.

(3) Mae i'r ymadroddion a ddefnyddir yn yr Atodlen yr un ystyr ag yn Rheoliad Rheolaeth yr UE.

### Pasbortau anifeiliaid anwes: ffioedd

**5.**—(1) Y ffi sy'n daladwy i Weinidogion Cymru gan filfeddyg awdurdodedig am swp o 20 dogfen adnabod wag yw £56.

(2) Codir cost postio a phecynnu ar y milfeddyg awdurdodedig—

(a) pan na fo'r dogfennau adnabod yn cael eu casglu yn bersonol;

(b) pan fo'r milfeddyg awdurdodedig yn gofyn i'r dogfennau adnabod gael eu hanfon drwy'r post.

(3) Yn y rheoliad hwn—

ystyr "dogfen adnabod" ("*identification document*") yw dogfen sydd i'w dyroddi a'i llenwi gan filfeddyg awdurdodedig yn unol ag Erthygl 22 o Reoliad (EU) Rhif 576/2013 ar gyfer symud anifeiliaid anwes o fewn yr UE; ac

ystyr "milfeddyg awdurdodedig" ("*authorised veterinarian*") yw milfeddyg y mae Gweinidogion Cymru wedi ei awdurdodi i gyflawni tasgau yn unol â Rheoliad (EU) Rhif 576/2013(**7**).

(**5**) 1966 p. 36. Diwygiwyd adran 2 gan erthygl 12 o O.S. 2003/2919, a pharagraff 1 o'r Atodlen iddo; a chan erthygl 2 o O.S. 2008/1824, a pharagraff 2(a) a (b) o'r Atodlen iddo.

(**6**) OJ Rhif L 300, 14.11.2009, t. 1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Cyngor (EU) Rhif 1385/2013 (OJ Rhif L 354, 28.12.2013, t. 86).

(**7**) OJ Rhif L 178, 28.6.2013, t. 1.

*Lesley Griffiths*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

22 Mai 2018

## YR ATODLEN

Rheoliad 4

### Tabl 1

**Ffioedd sy'n daladwy gan weithredwr sefydliad neu weithfa am gais i gael cymeradwyaeth neu gymeradwyaeth amodol o dan Erthyglau 24 a 44 o Reoliad Rheolaeth yr UE**

| *Colofn 1*<br><br>*Gweithgaredd* | *Colofn 2*<br><br>*Ffi (£) hyd at a chan gynnwys 30 Mehefin 2019* | *Colofn 3*<br><br>*Ffi (£) ar ôl 30 Mehefin 2019* |
|---|---|---|
| Yr amser a dreulir gan swyddog milfeddygol yn teithio i fangre ac oddi yno at ddiben y gweithgareddau yn y Tabl hwn | 21 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreulir hyd at uchafswm o 126 | 21 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreulir hyd at uchafswm o 126 |
| Yr amser a dreulir gan un o swyddogion Gweinidogion Cymru (ac eithrio swyddog milfeddygol) yn teithio i fangre ac oddi yno at ddiben y gweithgareddau yn y Tabl hwn | 14 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreulir hyd at uchafswm o 84 | 14 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreulir hyd at uchafswm o 84 |
| Yr amser a dreulir gan swyddog milfeddygol at ddiben gweithgareddau a nodir yn y Tabl hwn ar ôl 60 munud cyntaf ymweliad safle er mwyn asesu addasrwydd i gael cymeradwyaeth | 8 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreulir | 16 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreulir |
| Yr amser a dreulir gan un o swyddogion Gweinidogion Cymru (ac eithrio swyddog milfeddygol) at ddiben gweinyddu ymweliadau atodol a gweithgareddau cysylltiedig | 3 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreulir | 6 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreulir |
| Ffi weinyddol atodol am gyflwyno anfonebau am ymweliadau atodol neu weithgareddau cysylltiedig | 7 am bob anfoneb | 13 am bob anfoneb |
| Ystyried cais am gymeradwyaeth i weithfa rendro sy'n prosesu sgil-gynhyrchion anifeiliaid, sy'n cynnwys ymweliad safle o hyd at 60 munud | 892 | 1785 |
| Ystyried cais am gymeradwyaeth i sefydliad neu weithfa sy'n ymgymryd â thrawsnewid sgil-gynhyrchion anifeiliaid a/neu gynhyrchion deilliedig yn gompost, sy'n cynnwys ymweliad safle o hyd at 60 munud | 475 | 951 |
| Ystyried cais am gymeradwyaeth i sefydliad neu weithfa sy'n ymgymryd â thrawsnewid sgil-gynhyrchion anifeiliaid a/neu gynhyrchion deilliedig yn fio-nwy, sy'n cynnwys ymweliad safle o hyd at 60 munud | 475 | 951 |
| Ystyried cais am gymeradwyaeth i sefydliad neu weithfa sy'n ymgymryd â thrin sgil-gynhyrchion anifeiliaid ar ôl eu casglu, drwy weithrediadau megis didoli, torri, oeri, rhewi, halltu, tynnu crwyn neu dynnu deunydd risg | 242 | 485 |

| *Colofn 1*<br><br>*Gweithgaredd* | *Colofn 2*<br><br>*Ffi (£) hyd at a chan gynnwys 30 Mehefin 2019* | *Colofn 3*<br><br>*Ffi (£) ar ôl 30 Mehefin 2019* |
| --- | --- | --- |
| penodedig, sy'n cynnwys ymweliad safle o hyd at 60 munud | | |
| Ystyried cais am gymeradwyaeth i sefydliad neu weithfa sy'n ymgymryd â storio sgil-gynhyrchion anifeiliaid neu gynhyrchion deilliedig, sy'n cynnwys ymweliad safle o hyd at 60 munud | 242 | 485 |
| Ystyried cais am gymeradwyaeth i sefydliad neu weithfa sy'n gweithgynhyrchu bwyd anifeiliaid anwes, sy'n cynnwys ymweliad safle o hyd at 60 munud | 198 | 395 |
| Ystyried cais am gymeradwyaeth i weithfa losgi, sy'n cynnwys ymweliad safle o hyd at 60 munud | 198 | 395 |

**Tabl 2**

**Ffioedd sy'n daladwy gan weithredwr sefydliad neu weithfa am ymweliadau safle o dan Erthygl 45 o Reoliad Rheolaeth yr UE**

| *Colofn 1*<br><br>*Gweithgaredd* | *Colofn 2*<br><br>*Ffi (£) hyd at a chan gynnwys 30 Mehefin 2019* | *Colofn 3*<br><br>*Ffi (£) ar ôl 30 Mehefin 2019* |
| --- | --- | --- |
| Yr amser a dreulir gan swyddog milfeddygol yn teithio i fangre ac oddi yno at ddiben y gweithgareddau yn y Tabl hwn | 21 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreulir hyd at uchafswm o 126 | 21 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreulir hyd at uchafswm o 126 |
| Yr amser a dreulir gan un o swyddogion Gweinidogion Cymru (ac eithrio swyddog milfeddygol) yn teithio i fangre ac oddi yno at ddiben y gweithgareddau yn y Tabl hwn | 14 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreulir hyd at uchafswm o 84 | 14 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreulir hyd at uchafswm o 84 |
| Yr amser a dreulir gan swyddog milfeddygol at ddiben ymweliadau safle sy'n para mwy na 30 munud | 8 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreulir | 16 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreulir |
| Yr amser a dreulir gan un o swyddogion Gweinidogion Cymru (ac eithrio swyddog milfeddygol) at ddiben ymweliadau safle sy'n para mwy na 30 munud | 4 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreulir | 8 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreulir |
| Yr amser a dreulir gan un o swyddogion Gweinidogion Cymru (ac eithrio swyddog | 3 am bob chwarter awr neu ran o | 6 am bob chwarter awr neu ran o |

| *Colofn 1*<br><br>*Gweithgaredd* | *Colofn 2*<br><br>*Ffi (£) hyd at a chan gynnwys 30 Mehefin 2019* | *Colofn 3*<br><br>*Ffi (£) ar ôl 30 Mehefin 2019* |
|---|---|---|
| milfeddygol) yn trefnu ymweliadau safle ac yn ymdrin ag unrhyw bwyntiau gweithredu sy'n codi o'r ymweliad | chwarter awr a dreulir | chwarter awr a dreulir |
| Cynnal 30 munud cyntaf arolygiad blynyddol neu ddwyflynyddol o sefydliad neu weithfa a gymeradwywyd neu a gofrestrwyd sy'n ofynnol o dan Reoliad Rheolaeth yr UE | 78 am bob ymweliad | 157 am bob ymweliad |
| Ffi flynyddol am gynnal 30 munud cyntaf pob un o bedwar ymweliad safle er mwyn arolygu sefydliad neu weithfa a gymeradwywyd neu a gofrestrwyd pan fo arolygiad chwarterol yn ofynnol o dan Reoliad Rheolaeth yr UE | 281 y flwyddyn | 561 y flwyddyn |
| Ffi flynyddol am gynnal 30 munud cyntaf pob un o ddeuddeg ymweliad safle er mwyn arolygu sefydliad neu weithfa a gymeradwywyd neu a gofrestrwyd pan fo ymweliadau arolygu misol yn ofynnol o dan Reoliad Rheolaeth yr UE | 829 y flwyddyn | 1658 y flwyddyn |

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn nodi'r ffioedd sy'n daladwy i Weinidogion Cymru ym maes iechyd anifeiliaid.

Mae rheoliad 4 yn darparu bod ffioedd yn daladwy gan weithredwyr sefydliadau a gweithfeydd y mae'n ofynnol eu cymeradwyo a'u harolygu o dan Reoliad (EC) Rhif 1069/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod rheolau iechyd o ran sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion deilliedig nad ydynt wedi eu bwriadu ar gyfer eu bwyta gan bobl (OJ Rhif L 300, 14.11.2009, t. 1). Nodir y ffioedd hyn yn yr Atodlen.

Pennir bod y ffioedd yn 50% o swm adennill cost lawn y costau y mae Gweinidogion Cymru yn mynd iddynt yn y cyfnod hyd at a chan gynnwys 30 Mehefin 2019 (ac eithrio amser teithio i fangreoedd, sy'n cynrychioli'r swm adennill cost lawn o'r dechrau), ac yna pennir eu bod yn 100% o'r swm adennill cost lawn wedi hynny.

Mae'r ffioedd yn rheoliad 5 yn daladwy mewn cysylltiad â danfon pasbortau anifeiliaid anwes i filfeddygon awdurdodedig at ddiben dyroddi pasbort anifail anwes er mwyn galluogi ci, cath neu ffured i deithio dramor gyda'i berchennog neu ei pherchennog.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.